

Alwyn Jones
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

Dyddiad / Date: 24/05/2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Par: Monitro gwelliannau yng ngwasanaethau plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng 26 Ebrill 2021 a 29 Ebrill 2021.

Diolch am hwyluso gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn monitro gwasanaethau cymdeithasol plant. A wnewch chi ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu, yn arbennig yn ystod y cyfnod anodd hwn, sy'n llawn heriau a blaenoriaethau gwahanol.

Gwaith dilynol a gynlluniwyd oedd y gwaith monitro hwn, yn deillio o arolygiad seiliedig ar risg a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020. Ym mis Hydref 2020, gwnaethom farnu bod y gwasanaethau dan sylw yn parhau i fod yn annigonol, ond bod arwyddion cynnar o welliant. Mae hynny'n golygu bod y gwasanaethau yn methu â chyflawni dyletswyddau statudol yn gyson, ond ni nodwyd bod y plant heb gael eu cefnogi, na'u bod yn wynebu risg uniongyrchol o niwed neu gamdriniaeth.

Mae AGC, wrth drafod â'r Prif Swyddog Gweithredol ac arweinwyr y cyngor, wedi cytuno nad yw'r patrwm o wella a dirywio a welwyd mewn perthynas â gwasanaethau plant Wrecsam yn dderbyniol.

Mae'n rhaid i arweinwyr a rheolwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wneud rhagor i sicrhau y caiff gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 eu bodloni er budd pobl Wrecsam. Mae'r ddwy ddeddf hyn yn ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus wella llesiant pobl, rwan ac yn y dyfodol, a sicrhau bod plant yn cael y gofal a'r cymorth cynaliadwy o ansawdd uchel y mae hawl ganddynt i'w cael.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Offices
Sarn Mynach
Llandudno Junction
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yn amlwg bod y Prif Swyddog Gweithredol yn awyddus i wneud newidiadau i ddiwylliant a strwythur y gwasanaethau, a gwella canlyniadau i blant yn Wrecsam. Roedd cynlluniau pwysig ar waith, ac roedd newidiadau wedi dechrau cael eu gwneud. Cafwyd arwyddion cynnar y gallai'r Prif Swyddog Gweithredol roi'r sbardun sydd ei angen er mwyn gwneud newidiadau cynaliadwy cadarnhaol.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gweithgarwch monitro mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol Wrecsam i blant a gynhaliwyd rhwng 26 Ebrill 2021 a 29 Ebrill 2021. Bwriad y gweithgarwch monitro yw rhoi sicrwydd bod gwasanaethau cymdeithasol Wrecsam yn parhau ar drywydd cadarnhaol tuag at wella.

Mae'r llythyr hwn yn diweddarau rhai o'r manylion a geir yn adroddiad AGC ym mis Hydref 2020. Nid yw'n dileu'r amrywiaeth ehangach o ofynion gwella a nodwyd yn yr adroddiad arolygu blaenorol ym mis Hydref 2020.

Man cychwyn ein gwaith monitro oedd cydnabod yr her enfawr roedd y staff, y rheolwyr a'r uwch-arweinwyr yn ei hwynebu. Deallwn yr egni, yr ymrwymiad a'r amser sylweddol sydd eu hangen i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol plant diffygiol yn adran sy'n gweithredu'n effeithiol, gyda'r mesurau sydd eu hangen ar waith i sicrhau bod arferion da yn gynaliadwy. Er ein bod yn cydnabod y bydd rhai diffygion o hyd yn ystod y cyfnod trawsnewid anodd hwn, mae unrhyw fethiannau mewn ymateb i blant sy'n wynebu risg uniongyrchol o niwed neu gamdriniaeth yn parhau'n annerbyniol. Rydym bob amser yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod plant yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw risg hysbys o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, rydym yn ffyddiog nad oedd unrhyw blentyn yn wynebu risg uniongyrchol o gamdriniaeth na niwed o ganlyniad i ddiffyg gweithredu neu ymateb gwael gan yr awdurdod lleol.

Mae'r Bwrdd Gwelliannau Cyflym (y bwrdd) wedi llunio amrywiaeth o ffrydiau gwaith, cynlluniau gweithredu, a mesurau perfformiad eithaf manwl. Gwyddom fod y pwyslais hwn ar atebolrwydd a goruchwyliaeth glir gan y rheolwyr yn rhan annatod o'r gwaith o newid diwylliant yn Wrecsam. Rydym yn croesawu'r ffaith na thybir mwyach y gall polisïau a gweithdrefnau yn unig ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd i blant.

Wrth fonitro ffeiliau achos, gwelsom gysylltiadau uniongyrchol rhwng trafodaethau a gynhaliwyd gan y bwrdd gwelliannau cyflym a gwelliannau mewn arferion rheng flaen. Gwelsom dystiolaeth o well disgwyliadau o ran goruchwyliaeth gan y rheolwyr, a chydweithwyr yn atgoffa ei gilydd i gwblhau gwaith i safon uchel o fewn terfynau amser priodol er budd plant.

Gwelsom fod y nodiadau achos yn hawdd eu dilyn, a'i bod yn hawdd nodi diben ymwneud yr awdurdod lleol â bywyd y plentyn. Roedd y risgiau i blant yn amlwg, ac o ganlyniad i'r camau a gymerwyd i liniaru risgiau a sicrhau y caiff plant eu hamddiffyn, daethom i'r casgliad bod arwyddion cadarnhaol bod safonau cofnodi ffeiliau achos ac arferion yn gwella yn gyffredinol.

Gwnaethom chwilio am ragor o dystiolaeth o gysylltiadau rhwng y bwrdd ac arferion rheng flaen a chanlyniadau gwell i blant. Soniodd yr ymarferwyr wrthym am y system goleuadau traffig a roddwyd ar waith i nodi plant sy'n wynebu risg a sicrhau bod y rheolwyr yn goruchwyllo achosion o'r fath ac yn monitro ansawdd y cymorth a gynigir ddwywaith yr wythnos. Clywsom fod disgwyliadau o ran goruchwyliaeth a chymorth cyflawni yn arwain at reoli'r llif gwaith yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod diben i bob cam a bod pob cam yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant.

Mae tîm o ymarferwyr dynodedig wrthi'n gweithio'n systematig drwy ffeiliau achos plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw broblemau o ran ymarfer, ac yr achubir ar gyfleoedd cadarnhaol i gefnogi sefydlogrwydd i blant o fewn eu teuluoedd estynedig, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol.

Clywsom negeseuon cymysg am leihau llwythi achosion ym maes gwaith cymdeithasol. Roedd rhai o'r ymarferwyr yn awyddus i ddisgrifio'r ffordd roedd llwythi achosion llai yn eu helpu i fod yn fwy effeithiol. Roedd yr ymarferwyr yn gallu disgrifio sut roedd modd iddynt gael mwy o wybodaeth o ganlyniad i arferion cofnodi gwell mewn ffeiliau achos a'r ffaith bod timau'n rhannu gwybodaeth. O ganlyniad i hyn, roeddent yn gallu ymateb i blant yn gyflymach a dod o hyd i'r amser i ganolbwyntio ar waith ataliol gyda phlant, y mae ei angen yn fawr ac sy'n llawer mwy gwerth chweil.

Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, mae'r llwythi achosion yn parhau'n rhy uchel i rai timau. Caiff cyfleoedd a chyfrifoldebau i siarad â phlant eu colli, ac mae oedi annerbyniol wrth gofnodi cyfarfodydd sy'n bwysig i blant.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithredu ar frys i wella'r ffordd y mae'n hwyluso cyfarfodydd er mwyn diogelu plant sy'n agored i niwed, a rhoi'r adnoddau sydd eu hangen ar weithwyr cymdeithasol i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod technoleg gwybodaeth ar gael yn eang er mwyn ymgysylltu â phlant a gweithwyr proffesiynol eraill mewn modd effeithiol ac effeithlon o fewn amserlenni statudol. Cafodd yr awdurdod lleol ei herio ar y pwynt hwn yn ystod sesiwn adborth ar y gwaith monitro, a rhoddodd sicrwydd ei fod yn mynd i'r afael â'r mater yn ddi-oed.

Gwyddom fod adnoddau ychwanegol wedi'u targedu a chymorth cyfreithiol ychwanegol wedi cael eu rhoi i'r gwasanaeth. Mae'n bwysig nodi bod yr adnoddau ariannol ychwanegol hyn wedi'u rhoi yn dilyn cyfnod hir o gyni, ac nad ydynt yn gwneud iawn am lefel y colledion blaenorol. Mae ein disgwyliadau ynghylch faint o welliant y gellir ei gyflawni yn ystyried y cyllid sydd ar gael, ac rydym yn parhau i gadw mewn cof yr heriau sydd ynghlwm wrth redeg gwasanaethau mawr a chymhleth yng nghyd-destun trefniadau ariannu ansicr.

Roedd cryn bwysau ar staff gofal cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam cyn y pandemig. Yn ystod y gweithgarwch monitro, roedd yn amlwg bod rhai o'r swyddogion yn fregus ac yn teimlo pwysau'r holl alwadau arnynt. Mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i gefnogi llesiant. Rydym yn annog arweinwyr ac uwch-swyddogion i ystyried yr holl alwadau ar bawb ar yr adeg hon, a sicrhau bod terfynau amser

rhesymol ar gyfer cyflawni gweithgareddau a bod adnoddau ar gael i wneud hynny, a bod pob ymarferwr yn cael ei oruchwylio a'i gefnogi'n briodol.

Mae'r newidiadau cyflym a mawr a wnaed i'r strwythur rheoli, bron yn anochel, wedi tarfu ar drefniadau gweithio mewn partneriaeth lleol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod yr uwch-reolwyr newydd yn deall pa mor bwysig yw rhwydweithiau a chydweithio i ganlyniadau gwell i blant, lle ceir disgwyliadau uwch o ran llwyddiant.

Dywedodd asiantaethau partner allweddol wrthym am y ffordd y mae cydberthnasau cadarnhaol newydd yn cael eu meithrin ac yn dechrau cynnig cyfleoedd newydd i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'n galonogol gweld gwelliannau mewn gwasanaethau a ddarperir ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar gyfer plant y mae angen cymorth â materion iechyd meddwl arnynt.


Mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cael budd o gydberthnasau cryfach o fewn Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a rhwng y bwrdd ac awdurdodau lleol unigol. Mae natur aeddfed y cydberthnasau rhwng cyfarwyddwyr ac uwch-swyddogion yng Ngogledd Cymru yn gryfder lleol a all fod o ddefnydd i reolwyr newydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wrth feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn sicrhau gwelliannau er budd plant yng Ngogledd Cymru.

Cawsom wybod am newidiadau strwythurol yn yr adran gwasanaethau plant, newidiadau i strwythur a diben y tîm, a'r gwahanol farnau ynghylch pa 'fodel' yw'r un cywir ar gyfer gwasanaethau plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae cael model a gwybod yn glir y rhesymau pam y bydd y model yn gweithio yn eich awdurdod lleol yn sail i'r gwaith a wneir mewn llawer o wasanaethau effeithiol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wrthi'n gwneud gwaith ar y model gorau ar gyfer cefnogi plant sy'n agored i niwed yng Nghymru. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn cysylltu â'r sefydliad hwnnw am gymorth.

O'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliad monitro hwn, rydym o'r farn bod gwasanaethau cymdeithasol plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i wneud y gwelliannau sy'n ofynnol.

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol drwy gynnal ymweliad monitro arall yn ystod y chwech i wyth mis nesaf, a chynnal arolygiad llawn mewn 12 mis.

Yn gywir,



Christine Jones

Uwch Reolwr – Arolygu Awdurdodau Lleol
Arolygiaeth Gofal Cymru